Llais,
33–35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33–35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

[redacted]

Rhif Cyfeirnod: LLAIS FOI-2025-001

28 Ionawr 2025

Annwyl [redacted]

Diolch am eich e-bost ar 3 Ionawr 2025 yn gofyn am y wybodaeth ganlynol: **Cais am ganlyniadau'r arolwg mamolaeth 'cael babi' a wnaeth Llais yn Haf/Hydref 2024 i mewn i famolaeth ym Mae Abertawe.**

Rwyf wedi trin eich gohebiaeth fel cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gallaf gadarnhau bod Llais yn dal gwybodaeth mewn perthynas â'ch cais. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac rydym yn rhagweld y bydd yr adroddiad terfynol ar gael erbyn diwedd mis Chwefror 2025 yn barod i'w gyhoeddi.

Cyn gynted ag y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau i'w gyhoeddi, byddaf yn sicrhau bod copi yn cael ei anfon atoch yn uniongyrchol fel dilyniant i'ch cais am wybodaeth.

**Camau nesaf**

Os ydych chi'n anhapus â'r ymateb hwn neu'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch cais am wybodaeth, gallwch ofyn i ni adolygu ein hymateb. Os ydych am i ni gynnal adolygiad, rhowch wybod i ni o fewn 40 diwrnod gwaith.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.
We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon ar ôl ein hadolygiad mewnol, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylech wneud cwynion i

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 6 wythnos o dderbyn canlyniad adolygiad mewnol. Gallwch wneud cwyn mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trwy ei wefan www.ico.org.uk/foicomplaints
- drwy'r post:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cymru 2il Lawr
Tŷ Churchill Ffordd
Churchill Caerdydd
CF10 2HH

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymateb hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi. Dyfynnwch y cyfeirnod uchod mewn unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,



Swyddog Llywodraethu

Kirsty Contreras-Stacey